

# SOLAR AC AMAETHYDDIAETH

Mae cefnogi'r economi wledig yn flaenoriaeth i ni a gellir cynllunio ein ffermydd solar fel bod cynhyrchu amaethyddol parhaus yn cael dal i ddigwydd. Mae ystyriaethau cynllunio, megis y lle rhwng paneli a'r tir, a diogelu ceblau, yn caniatáu i dda byw llai, megis defaid, ieir a gwyddau, bori'r tir, gan olygu y gall gweithgarwch amaethyddol ddigwydd ochr yn ochr â chynhyrchiad trydan lleol.



## Diogel i Anifeiliaid

Nid yw ffermydd solar yn niweidiol i anifeiliaid – caiff y ceblau i gyd eu claddu neu eu diogelu allan o gyrraedd, nid oes llifoleuadau ac ychydig iawn o sŵn a glywir. Golyga hyn y gellir ymgymryd â gweithgaredd amaethyddol o gwmpas y gosodiad solar.



## Glaswelltir Agored

Gadewir llwybrau glaswelltog llydan rhwng 3m a 7m rhwng y rhesi o baneli solar, er mwyn lleihau'r cysgod a gwneud yn fawr o'r golau haul a gaiff bob rhes o baneli bob dydd. Mae hyn fel arfer yn gadael 70% o'r fferm solar yn laswelltir agored.



## Cysgod a Lloches

Mae paneli solar yn ddelfrydol ar gyfer amddiffyn da byw rhag y tywydd. Gall y da byw gysgodi o dan y paneli rhag tywydd drwg (poeth neu oer) sy'n rhoi cysur ac yn eu hamddiffyn rhag ysglyfaethwyr.